**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, A.R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref

## 82. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. L. McAlpine a Miss H. J. Windus (Dirprwy Glerc y Dref)

## 83. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 16eg Hydref 2019 - Rhifau Cofnod 66-81

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Hydref 2019 - Rhifau Cofnod 21-24

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs. D. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Tachwedd 2019 - Rhifau Cofnod 25-27

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A.S. Johnson a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bdo yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Tachwedd 2019 - Rhifau Cofnod 25-37

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

Holodd Aelod ynglŷn ag anfon Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn hwyr, a oedd wedi eu dosbarthu ar y noson a chytunodd Clerc y Dref arolygu'r broses ar gyfer eu dosbarthu.

## 84. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at ei phresenoldeb mewn digwyddiadau yn y mis diwethaf ac yn benodol goleuo'r Goelcerth Flynyddol a Sul y Coffa. Gofynnodd y Maer bod gwaith Ysgrifennydd y Maer yn paratoi'r trefniadau ar gyfer Sul y Coffa yn cael eu cydnabod.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at ddigwyddiad a fynychodd, yn enwedig Gwyl Ffilm Ryngwladol Wicked Wales a'r swper elusen Pysgod a Sglodion a drefnwyd gan Gyngor Tref Towyn a Bae Cinmel.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 85. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (30ain Hydref hyd at 13eg Tachwedd 2019)*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Y Cyngh D King | Treuliau Dirprwy Faer Hydref 2019 | 873 | 169.75 |
| Gunsmoke Communications | Treuliau ar gyfer digwyddiadau Nos Galan a'r Nadolig | 874 | 123.70 |
| Y Cyngh E Chard | Treuliau Maer Hydref 2019 | 875 | 61.55 |
| CIPFA | Ffioedd Proffesiynol ar gyfer Mr A O Williams | 876 | 332.00 |
| Newsquest Media | Hysbysiad Cyhoeddus | 879 | 274.80 |
| JTM Signs Ltd | Arwyddion ar gyfer Sul y Coff | 880 | 288.00 |
| Cyngor Tref Treffynnon – Cronfa Elusen y Maer | 2 x Docyn ar gyfer Gwasanaeth Carolau Elusen 13/12/19 | 881 | 10.00 |
| Elusen Maer Bae Colwyn A/C | Cyfraniad | 882 | 10.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£1,269.80** |

## 86. DATGANIAD BLYNYDDOL 2017/18 – CWBLHAU ARCHWILIAD

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd bod ail gais am gymeradwyaeth benthyca wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac roedd yn y broses o gael ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Datganiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a chydnabod yr ail gais am gymeradwyaeth benthyca.*

**87. DATGANIAD BLYNYDDOL 2018/19 – CWBLHAU ARCHWILIAD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef ac adroddiad yr archwiliwr allanol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Datganiad Blynyddol a archwiliwyd ar gyfer 2018/19 a chymeradwyo cynnwys y cynllun gweithredu a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a'i oruchwylio gan Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor.*

**88. PENODI LLYWODRAETHWR YSGOL – CHRIST THE WORD, Y RHYL**

Cyfeiriodd y Maer at wahoddiad yr ysgol i'r Cyngor Tref ystyried penodi Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE fel Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol am gyfnod o bedair blynedd neu nes bydd yr Aelod yn peidio â bod yn Gynghorydd.*

**89. DYDDIAU PARCIO AM DDIM**

Adroddodd Clerc y Dref bod pum diwrnod o barcio am ddim ar gael i'r Cyngor Tref ddewis eu defnyddio hyd at 31ain Rhagfyr 2019 a gofynnodd i'r aelodau ystyried pa ddyddiadau yr hoffai eu defnyddio.

***PENDERFYNWYD***

*(a) hysbysu'r Cyngor Sir bod y Cyngor Tref yn dymuno cael y cyfnod dydd Gwener 20fed Rhagfyr – dydd Mawrth 24ain Rhagfyr fel dyddiadau parcio am ddim.*
*(b) Bod y Cynghorwyr canlynol yn cymryd cyfrifoldeb am sichau bod yr arwyddion yn cael eu gosod yn y meysydd parcio a nodwyd.*

| | | |
|---|---|---|
| *Maes Parcio Morley Road* | - | *Y Cynghorydd Mrs. E. Chard* |
| *Maes Parcio Queen Street* | - | *Y Cynghorydd Ms. V. Roberts* |
| *Maes Parcio'r Twr Awyr* | - | *Y Cynghorydd K. Jones* |
| *Maes Parcio West Kinmel Street* | - | *Y Cynghorydd A. James* |
| *Maes Parcio Canolog (Tanddaearol gynt)* | - | *Y Cynghorydd K. Jones* |
| *Maes Parcio'r Llyfrgell (nid Neuadd Morfa)* | - | *Y Cynghorydd T. Thomas* |
| *Maes Parcio'r Orsaf Drenau* | - | *Y Cynghorydd K. Jones* |

**90. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

**91. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

**92. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**93. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfarfod y Pwyllgor CSG (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau:

Pwyllgor CSG - 14eg Hydref 2019 -. Rhifau Cofnod 15-23

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**94. CYNLLUN TREF Y RHYL: 2017 – 2022**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y ddogfen i'r aelodau ei derbyn, ei newid a'i chymeradwyo (copiau digidol wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen, copiau caled ar gael yn y cyfarfod).

***PENDERFYNWYD*** *diolch i'r Pwyllgor CSG ac yn enwedig y Cadeirydd am ei waith helaeth ar y Cynllun a fydd nawr yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn amodol ar awdurdodi Clerc y Dref i wneud newidiadau golygyddol mân os oes angen.*

**95. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Dirpwy Faer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: …………………………